

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 53/2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru Cam 2, 2015

Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 2, 2015

Ymchwil ar ran Croeso Cymru

Catrin Davies, Beaufort Research Ltd.

The logo for Beaufort Research, featuring the company name in white lowercase letters on a solid purple rectangular background.

beaufortresearch

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Robert Lewis

Pennaeth Ymchwil a Thwristiaeth

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Rhif ffôn: 0300 061 6038

E-bost: robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 20 Hydref 2015

ISBN: 978-1-4734-4965-7

© Hawlfraint y Goron



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, heblaw fel y nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL 2**1. CYFLWYNIAD AC AMCANION.....5****2. METHODOLEG.....6****3. PRIF GANFYDDIADAU.....9**

3.1 Hyder Busnesau.....9

3.2 Cwpan Rygbi'r Byd.....17

3.3 Tarddiad yr Ymwelwyr.....24

ATODIAD**HOLIADUR YR AROLWG**

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Hyder Busnesau

Roedd bron i ddau bumed o'r busnesau wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr yn ystod Awst eleni o gymharu ag Awst y llynedd; cafodd 38% ychwanegol lefel debyg o fusnes. Golyga hyn bod tri chwarter o fusnesau twristiaeth yng Nghymru wedi cynnyddu neu wedi denu nifer debyg o westeion o gymharu ag Awst 2014.

Ymhlith y busnesau a oedd wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr, nid oedd un rheswm penodol dros y cynnydd hwn; fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn priodoli'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'w gwaith marchnata eu hunain neu'r digwyddiadau yn yr ardal (10% yr un). I'r gwrthwyneb, ymhlith y busnesau hynny a oedd wedi cael llai o westeion/ymwelwyr, roedd mwy na hanner ohonynt yn teimlo ei fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r tywydd gwael (79%), a nododd 12% pellach bod eu rhifau yn is o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd.

Pan ofynnwyd iddynt gymharu trosiant cyffredinol eu busnes ar gyfer Awst eleni o'i gymharu â'r llynedd, roedd y canfyddiadau'n debyg i nifer y gwesteion/ymwelwyr a gafwyd. Dywedodd tua dau bumed o'r holl fusnesau fod eu trosiant wedi bod yn uwch eleni, ac roedd bron i chwarter ohonynt wedi nodi ei fod yn is.

Roedd bron i dri chwarter o'r busnesau'n hyderus ynglŷn â thymor yr hydref a oedd yn agosáu, gyda 22% yn hyderus iawn a 51% yn eithaf hyderus.

Cwpan Rygbi'r Byd

I ddechrau, gofynnwyd i fusnesau a oedd nifer cyfunol yr archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref eleni yn uwch, yn is neu'r un peth â'r archebion a wnaed ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref y llynedd. Oherwydd y bydd Cymru yn croesawu rhai o'r gemau ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd yn ystod misoedd yr hydref, gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn barnu p'un a oedd busnesau twristiaeth yng Nghymru wedi gweld cynnydd mewn archebion ar gyfer y misoedd hyn o gymharu â'r un adeg y llynedd (rhaid tybio bod hyn o ganlyniad i'r twrnament).

Yn fras, nododd traean o fusnesau twristiaeth na fu unrhyw newid i'r archebion a drefnwyd ymlaen llaw. Wedi dweud hynny, nododd 27% gynnydd mewn archebion, tra bod cyfran debyg (24%) wedi nodi gostyngiad mewn archebion a drefnwyd ymlaen llaw.

Yna, gofynnwyd i'r busnesau a oedd ymhlith y rheini a nododd eu bod wedi derbyn nifer uwch o archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref, pam eu bod yn meddwl bod archebion ymlaen llaw wedi cynyddu ar gyfer tymor yr hydref eleni. Gofynnwyd y cwestiwn

hwn er mwyn gweld p'un a fyddai busnesau yn priodoli'r cynnydd hwn mewn archebion i Gwpan Rygbi'r Byd yn ddigymell.

Roedd y busnesau a welodd gynnydd yn nifer yr archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref fwyaf tebygol o sôn am Gwpan Rygbi'r Byd (16%).

Gofynnwyd hefyd i'r busnesau twristiaeth hynny a nododd nad oedd eu harchebion ar gyfer Medi a Hydref eleni yn cymharu'n ffafriol â'r llynedd, beth oedd y rheswm dros hynny, yn eu barn nhw.

Gwnaeth dau bumed o'r busnesau a gafodd llai o archebion ymlaen llaw eleni briodoli'r cwmp yn y niferoedd hynny i'r tywydd gwael.

Yna gofynnwyd i'r busnesau p'un a oeddent yn ymwybodol bod Cymru yn cynnal rhai o gemau Cwpan Rygbi'r Byd eleni. Dywedodd mwyafrif y busnesau eu bod yn ymwybodol o hyn (81%).

Yna gofynnwyd i'r busnesau p'un a oeddent yn teimlo y byddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith ar eu busnesau. Roedd mwy na thri chwarter o'r busnesau a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo na fyddai'n cael unrhyw effaith; roedd 17% yn teimlo y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar eu busnes, tra mai 4% yn unig a oedd yn teimlo y byddai'n cael effaith negyddol.

Pan ofynnwyd i'r busnesau a oedd yn credu na fyddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael unrhyw effaith ar eu busnes, pam oedd hynny, dywedodd mwy na thri chwarter ohonynt mai'r rheswm oedd eu bod wedi'u lleoli'n rhy bell o'r gemau / yn rhy bell o Gaerdydd.

Roedd y busnesau a oedd yn teimlo y byddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith gadarnhaol ar eu busnes yn seilio hyn ar y ffaith eu bod naill ai wedi gweld cynnydd yn yr archebion / yn y busnes eisoes neu'n credu y byddent yn gweld cynnydd yn nifer yr archebion / busnesau (41%). Roedd un chwarter o'r busnesau a oedd yn teimlo y byddai'r Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith gadarnhaol hefyd yn credu y byddai'n denu mwy o bobl i'r ardal ac y byddai eu busnesau'n elwa'n ariannol o ganlyniad i hynny. Roedd 12% pellach o fusnesau'n teimlo y byddai Cymru yn elwa'n gyffredinol wrth helpu i hyrwyddo'r wlad a hybu diddordeb ymhlith darpar ymwelwyr o'r tu allan i Gymru.

O ran y busnesau a nododd eu bod yn credu y byddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith negyddol ar eu busnes (14 o fusnesau yn unig), dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod yn pryderu y byddai ymwelwyr yn llai tebygol o ymweld â'u hatyniad / ardal tra bod y gemau'n cael eu cynnal, oherwydd byddai'n well ganddynt wyllo'r gemau naill ai gartref neu yn y dafarn (12 o fusnesau - noder fod y sail yn fach iawn).

Tarddiad yr Ymwelwyr

Nododd ychydig mwy na chwarter o'r busnesau gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r Almaen o gymharu â 2014, tra bod un chwarter arall wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr 'o wledydd tramor eraill'. Nododd un busnes o bob chwech gynnydd mewn ymwelwyr o Awstralia a Seland Newydd, a'r UDA a Chanada (17% ac 16% yn y drefn honno), tra bod cyfran ychydig yn llai wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o Ffrainc (14%). Dim ond 7% oedd wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o Iwerddon.

Fodd bynnag, nid oedd cyfran gymharol fawr o fusnesau wedi cael ymwelwyr o'r gwledydd hyn.

1. CYFLWYNIAD AC AMCANION

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal Arolwg Busnesau Twristiaeth Cymru ers 2004. Mae'r ymchwil hwn yn rhoi cipolwg gwerthfawr i'r ffordd y mae busnesau twristiaeth yng Nghymru yn perfformio, a'u rhagolygon busnes. Mae'r arolwg yn cynnwys sawl cam o ymchwil ac mae'n cynnwys sampl o fusnesau yn y sector llety a'r busnesau sy'n atyniadau ledled Cymru.

Mae darparu *mewnwelediad yn gyflym* yn agwedd allweddol ar y prosiect yn dilyn cyfnodau gwyliau allweddol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r mewnwelediadau hyn yn darparu awgrymiadau cynnar o berfformiad busnes.

I sicrhau y cwblheir y gwaith yn gyflym, cedwir at amserlen dynn ar gyfer pob cam o'r arolwg. Mae'r gwaith maes wedi'i amserlennu i ddigwydd ar unwaith yn dilyn dyddiad penodol: mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chyfnod gŵyl y banc hwyr ym mis Awst 2015. Cyflenwir data'r ymchwil erbyn diwedd yr wythnos o waith maes, gydag adroddiad cyflawn yn cael ei gwblhau erbyn yn gynnar yr wythnos wedyn.

Y meysydd pwnc a gwmpesir gan Gam 2 o arolwg Twristiaeth Busnes 2015 yw:



Hyder busnesau

Nifer y gwesteion/ ymwelwyr yn ystod Awst eleni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a hyder am dymor hydref 2015;



Cwpan Rygbi'r Byd

Nifer yr archebion ymlaen llaw yn ystod misoedd cynnar yr hydref, ymwybyddiaeth o Gwpan Rygbi'r Byd yng Nghymru, yr effaith bosibl ar eu busnesau a'r rhesymau dros eu barn;



Tarddiad Ymwelwyr

Mae tarddiad ymwelwyr a ph'un a yw cyfrannau'r ymwelwyr o dramor o wledydd amrywiol wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r arolwg.

2. METHODOLEG

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron) gan uned gyfweled benodedig Beaufort Research. Cymerodd cyfweliadau rhwng 5 - 8 munud i'w cwblhau a chynigwyd dewis i bob ymatebydd gynnal eu cyfweled yn yr iaith o'u dewis, Saesneg neu Gymraeg. Dewisodd cyfanswm o 25% o unigolion gwblhau eu cyfweled yn Gymraeg; roedd mwy wedi manteisio ar yr opsiwn hwn yng Ngogledd Cymru (30%), a'r lleiaf yn Ne Orllewin Cymru (0%).

Cwblhawyd cyfanswm o **406 o gyfweliadau**, a chynhaliwyd gwaith maes ar y 1af a'r 2il o Fedi 2015. Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ddydd Mawrth 8 Medi; llwyddwyd i wneud y gwaith yn gyflym oherwydd yr ymateb rhagorol gan y busnesau a oedd yn frwdfrydig ac yn barod iawn i gymryd rhan.

Roedd y grŵp samplu ar gyfer yr ymchwil (a oedd yn cynnwys busnesau heb radd yn ogystal â rhai â gradd) yn cynnwys busnesau llety yng Nghymru oedd yn hysbys i Croeso Cymru (gwybodaeth wedi'i darparu gan Croeso Cymru ac wedi'i darganfod gan Beaufort Research), a'r rhan fwyaf o atyniadau twristiaeth hysbys yng Nghymru (gwybodaeth a ddelir gan Beaufort Research). Roedd y busnesau'n ymrannu'n un o bedwar grŵp busnes gwahanol:

- Atyniadau
- Llety â gwasanaeth
- Llety hunanddarpar
- Parciau carafán / parciau gweraylla

Cafodd busnesau eu categorio hwyd yn ôl rhanbarth. Cafodd yr Awdurdodau Unedol canlynol eu cynnwys ym mhob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi'r data:

Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	De Orllewin Cymru	De Ddwyrain Cymru
Ynys Môn	Ceredigion	Sir Gaerfyrddin	Blaenau Gwent
Conwy	Gwynedd*	Castell-nedd Port	Pen-y-bont ar Ogwr
Sir Ddinbych	Powys	Talbot	Caerffili
Sir y Fflint		Sir Benfro	Caerdydd
Gwynedd*		Abertawe	Merthyr Tudful
Wrecsam			Casnewydd
			Sir Fynwy
			Rhondda Cynon Taf
			Torfaen
			Bro Morgannwg

* Noder bod Awdurdod Unedol Gwynedd yn pontio dau ranbarth Llywodraeth Cymru, Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn dibynnu ar sector y cod post.

Mabwysiadwyd ymagwedd samplu data, yn ôl y math o fusnes a rhanbarth. Roedd y cwotâu a osodwyd yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd yng nghamau blaenorol yr ymchwil, ac yn arwain at gyfweld â sampl o fusnesau oedd yn fras yn broffil cynrychioladol. Cafodd pwysoliadau bach eu cymhwyso yn ystod y cam dadansoddi i fireinio proffil y sampl i adlewyrchu proffil y byd busnes.

Mae tabl 1 isod yn amlinellu nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda phob grŵp busnes ar draws pob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru.

Math o fusnes	Rhanbarth				CYFANSWM
	Gogledd	Canolbarth	De Orllewin	De Ddwyrain	
Atyniadau	27	14	20	16	77
Llety – â gwasanaeth	43	29	28	33	133
Llety - hunanddarpar	43	28	38	23	132
Llety - carafanau	21	14	22	7	64
CYFANSWM	134	85	108	79	406

Mae tabl 2 isod yn nodi nifer a chyfran berthnasol y cyfweiliadau a gynhaliwyd ym mhob is-grŵp allweddol a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data.

Tabl 2: Dosbarthiadau Is-grŵp	Nifer y cyfweiliadau	% y sampl a bwysolwyd
Math o fusnes		
Atyniadau	77	20
Llety - Cyfanswm	329	80
Llety - wedi'i raddio	285	69
Llety - heb ei raddio	44	11
Math o Lety		
Cyfanswm - â gwasanaeth	133	30
Cyfanswm - hunanddarpar	132	30
Cyfanswm - carafanau	64	20
Wedi'i raddio - â gwasanaeth	111	25
Hunanddarpar - wedi'i raddio	117	27
Carafanau - wedi'u graddio	57	18
Â gwasanaeth - heb eu graddio	22	5
Hunan ddarpar - heb eu graddio	15	3
Carafanau - heb eu graddio	7	2
Rhanbarth		
Gogledd Cymru	134	35
Canolbarth Cymru	85	20
De Orllewin Cymru	108	25
De Ddwyrain Cymru	79	20
Lleoliad y busnes		
Mewndirol	217	53
Glan y môr	158	39
Trefol	30	8

3. PRIF GANFYDDIADAU

3.1 Hyder busnesau


Gofynnwyd i'r busnesau hynny oedd yn bodoli ers mwy na 12 mis gymharu nifer y gwesteion/ymwelwyr yr oeddent wedi'u derbyn yn ystod Awst eleni â'r rhai a dderbyniwyd yn ystod Awst y llynedd.

Roedd bron i ddau bumed o'r busnesau wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr yn ystod Awst eleni o gymharu ag Awst y llynedd; cafodd 38% pellach lefel debyg o fusnes. Golyga hyn bod tri chwarter o'r busnesau twristiaeth yng Nghymru wedi cael mwy neu nifer tebyg o westeion o gymharu ag Awst 2014.

Dywedodd bron i chwarter o'r busnesau eu bod wedi derbyn llai o westeion / ymwelwyr; mae hon yn gyfran uwch o fusnesau yn nodi llai o ymwelwyr nag mewn arolwg tebyg a gynhaliwyd yn 2014, lle roedd 16% yn unig o'r busnesau wedi nodi llai o ymwelwyr o gymharu ag Awst 2013.


Wrth edrych ar y data yn ôl math o fusnes, roedd busnesau llety â gwasanaeth yn dangos y gyfran uchaf o fusnesau a gafodd fwy o westeion/ymwelwyr na'r flwyddyn flaenorol (44%), ac yna carafanau ac atyniadau (37% a 36% yn y drefn honno). Fodd bynnag, roedd carafanau'n fwyaf tebygol o nodi llai o ymwelwyr (32%) - gweler Ffigur 1 drosodd.

Ffigur 1



Gan archwilio nifer y gwesteion/ymwelwyr yn ôl rhanbarth, roedd y gyfran uchaf o fusnesau a gafodd fwy o westeion/ymwelwyr wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru (42%) yna Gogledd Cymru ac yna Canolbarth Cymru (39% a 36% yn y drefn honno). Nododd llai o fusnesau yn Ne Orllewin Cymru gynnydd mewn busnes yn ystod Awst eleni o gymharu ag Awst y llynedd ac roedd busnesau yn y rhanbarth hwn fwyaf tebygol o nodi eu bod wedi cael llai o ymwelwyr na'r llynedd (36%) - gweler Ffigur 2 drosodd.

Ffigur 2



Ymhlith y busnesau a oedd wedi derbyn mwy o westeion/ymwelwyr, nid oedd un rheswm amlwg am y cynnydd; fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn priodoli'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'w gwaith marchnata eu hunain neu'r digwyddiadau yn yr ardal (10% yr un).

Soniwyd am ffactorau eraill gan gyfrannau llai o fusnesau: roedd un o bob deg yn teimlo y bu cynnydd cyffredinol mewn twristiaeth yn yr ardal a bod mwy o bobl Brydeinig yn dewis aros yn y DU (9% yr un). Roedd busnesau hefyd yn teimlo bod argymhellion a defnyddio safleoedd archebu ar-lein, megis booking.com ac Airbnb wedi bod yn fuddiol i'w busnesau (7% yr un). Roedd cyfrannau bach hefyd yn credu y bu naill ai cynnydd yn nifer yr atyniadau yn yr ardal neu bod llwyddiant busnesau twristiaeth eraill yn yr ardal wedi cael effaith gadarnhaol ar eu busnesau eu hunain (6%). I gael mwy o enghreifftiau o'r rhesymau a roddwyd, gweler Tabl 3 drosodd.

Tabl 3

Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr? (heb gael cynnig awgrymiadau)	% y busnesau
Marchnata eu hunain	10
Digwyddiadau yn yr ardal	10
Gwelliant mewn twristiaeth	9
Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU	9
Argymhellion	7
Mwy o archebion dros y we / mwy yn defnyddio safleoedd archebu	7
Mwy o atyniadau yn yr ardal / busnesau twristiaeth eraill yn gwneud yn dda	6
Ystafelloedd/cyfleusterau gwell	5
Tywydd gwell	5
Cyhoeddusrwydd gwell / marchnata gwell yn gyffredinol	5
Aflonyddwch dramor / terfysgaeth	5
Gwell economi yn gyffredinol / gan bobl mwy o arian i'w wario	4
Busnes gan yr un bobl	4
Mwy o gapasiti	3
Tywydd gwael yn denu ymwelwyr	2
Prisiau / cyfraddau yn gywir/ rhesymol	2
Cynydd yn nifer y priodasau	2
Trip Advisor	2
Mwy o ymwelwyr o dramor	2
Arall	14
Ddim yn gwybod	16

Sail = busnes yn masnachu 12+ mis gyda mwy o ymwelwyr yn ystod Awst eleni o'i gymharu â'r llynedd (145)

Noder: Gallai busnesau nodi mwy nag un rheswm, felly gallai'r canrannau fod yn uwch na 100%

Wrth edrych ar y rhesymau a roddwyd ynghylch cynnydd mewn busnes fesul rhanbarth, roedd mwy o fusnesau yn y De Ddwyrain a De Orllewin Cymru yn credu bod cynnydd yn y digwyddiadau yn yr ardal wedi bod yn fuddiol i'w busnesau (16% ac 11% yn y drefn honno). Roedd busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru yn fwy tebygol o briodoli eu niferoedd uwch i gynnydd cyffredinol mewn twristiaeth yn yr ardal (16% ac 11%).

Roedd busnesau carafanau gryn dipyn yn fwy tebygol o gredu bod niferoedd eu hymwelwyr yn uwch oherwydd bod pobl Brydeinig yn dewis aros yn y DU o gymharu â darparwyr llety eraill (21% o fusnesau carafán o gymharu ag 8% o ddarparwyr hunanddarpar a 4% o ddarparwyr llety â gwasanaeth).

Ymhlith y busnesau hynny a oedd wedi cael llai o westeion/ymwelwyr yn ystod Awst eleni, roedd mwy na hanner ohonynt yn teimlo ei fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r tywydd gwael, ac roedd 12% pellach yn rhoi'r bai ar yr hinsawdd economaidd.

Roedd nifer llai o fusnesau yn credu bod lleihad cyffredinol mewn twristiaeth yn yr ardal ac roedd rhai yn teimlo eu bod wedi colli busnes yn sgil cystadleuaeth gref (9% a 6% yn y drefn honno). Nododd cyfrannau llai fod mwy o bobl yn mynd dramor (am fod y bunt yn gryfach yn erbyn yr ewro ar hyn o bryd) (5%); bod diffyg hysbysebu ac nad oedd yr ardal yn cael ei hysbysebu'n ddigonol, neu fod problemau na ellid eu rhagweld (3% yr un). Mae tabl 4 isod yn rhestru'r rhesymau a roddwyd gan 3% neu fwy o fusnesau.

Tabl 4

Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o westeion/ymwelwyr? (heb gael cynnig awgrymiadau)	% y busnesau
Tywydd ddim cystal	52
Hinsawdd economaidd	12
Dirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal	9
Cystadleuaeth gref	6
Mwy o bobl yn mynd tramor (mae'r bunt yn gryf felly mae'n well gan bobl fynd i Ewrop)	5
Diffyg hysbysebu / yr ardal ddim yn cael ei hyrwyddo ddigon	3
Problemau na ellid eu rhagweld	3
Arall	16
Ddim yn gwybod	21

Sail = busnes yn masnachu 12+ mis gyda llai o ymwelwyr yn ystod Awst eleni o'i gymharu â'r llynedd (94)

Noder: Gallai busnesau nodi mwy nag un rheswm, felly gallai'r canrannau fod yn uwch na 100%.


Pan ofynnwyd iddynt gymharu trosiant cyffredinol eu busnes yn ystod Awst eleni o'i gymharu â'r llynedd, roedd y canfyddiadau'n debyg i nifer y gwesteion/ymwelwyr a gafwyd. Dywedodd tua dau bumed o'r holl fusnesau fod eu trosiant wedi bod yn uwch eleni a dywedodd 23% fod eu trosiant wedi bod yn is.

Yn 2015, roedd busnesau llety â gwasanaeth fwyaf tebygol o nodi bod eu trosiant yn uwch yn ystod Awst eleni o gymharu ag Awst y llynedd (46%), tra bod parciau carafanau fwyaf tebygol o nodi lleihad mewn trosiant (32%). Efallai bod y tywydd gwael yn ystod yr haf hwn wedi cyfrannu at hynny am fod busnesau carafanau fwyaf tebygol o feio'r tywydd am niferoedd is o ymwelwyr yr haf hwn - i gael mwy o fanylion, gweler Ffigur 3 drosodd.

Ffigur 3

O'i gymharu ag Awst y llynedd, sut fydddech chi'n disgrifio'ch trosiant cyffredinol ar gyfer Awst eleni?


%



Sylfeini'n amrywio: busnesau sydd wedi bod yn gweithredu am fwy na 12 mis
Cyfanswm=405; Atyniadau(77); Llety â Gwasanaeth (132); Llety hunanddarpar (132); Carafanau (64)

Yn nhermau rhanbarth, roedd busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru'r un mor debygol o nodi cynnydd mewn trosiant o gymharu â'r llynedd (43% yr un), tra bod busnesau yn Ne Orllewin Cymru gryn dipyn yn fwy tebygol o nodi gostyngiad (34%) - gweler Ffigur 4 isod.

Ffigur 4




Roedd bron i dri chwarter o'r busnesau'n hyderus ynglŷn â thymor yr hydref a oedd yn agosáu, gyda 22% yn hyderus iawn a 59% yn eithaf hyderus.

Ar draws y mathau gwahanol o fusnesau, roedd y lefelau hyder yn eithaf cyson (ac eithrio parciau carafanau). Yn gyffredinol, roedd y lefelau hyder ar eu uchaf ymhlith atyniadau (80% yn hyderus). Ymhlith busnesau carafanau, roedd 65% yn hyderus am dymor yr hydref sy'n agosáu.

Fesul rhanbarth, busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru oedd fwyaf hyderus tra bod busnesau yn y De Orllewin leiaf hyderus (85% yn hyderus yn Ne Ddwyrain Cymru o gymharu â 66% yn Ne Orllewin Cymru) - gweler Ffigur 5 drosodd.

Ffigur 5



3.2 Cwpan Rygbi'r Byd

I ddechrau, gofynnwyd i fusnesau a oedd nifer cyfunol yr archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref eleni yn uwch, yn is neu'r un peth â'r archebion a wnaed ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref y llynedd. Oherwydd mai Cymru fydd yn croesawu rhai o'r gemau ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd yn ystod misoedd yr hydref, gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn mesur p'un a oedd busnesau twristiaeth yng Nghymru wedi gweld cynnydd yn yr archebion ar gyfer y misoedd hyn o gymharu â'r un amser y llynedd (rhaid tybio bod hyn o ganlyniad i'r twrnament).


Yn fras, nododd traean o fusnesau twristiaeth nad oedd unrhyw newid o gwbl yn yr archebion a wnaed ymlaen llaw. Wedi dweud hynny, nododd 27% gynnydd mewn archebion, tra bod cyfran debyg wedi nodi gostyngiad mewn archebion a wnaed ymlaen llaw (24%).

Wrth edrych ar yr archebion a wnaed ymlaen llaw ar gyfer yr hydref fesul math o fusnes, nododd ychydig mwy na thraean o'r busnesau llety â gwasanaeth gynnydd mewn archebion ymlaen llaw o gymharu â'r llynedd, tra bod llai o'r busnesau hynny sy'n atyniadau wedi nodi eu bod wedi derbyn cynnydd yn nifer yr archebion a wnaed ymlaen llaw (16%).

Fodd bynnag, nododd dau bumed o'r busnesau sy'n atyniadau nad oeddent yn gwybod p'un a oeddent wedi cael mwy o archebion ymlaen llaw ar gyfer misoedd yr hydref. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw am fod ymwelwyr yn llai tebygol o archebu wythnosau ymlaen llaw pan fyddant yn ymweld ag atyniadau.


Nododd traean o'r busnesau hunanddarpar eu bod wedi cael llai o archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref 2015 o gymharu â'r un adeg y llynedd, tra mai 11% yn unig o atyniadau a nododd eu bod wedi cael llai o archebion - i gael mwy o fanylion, gweler Ffigur 6.

Ffigur 6



Wrth edrych ar nifer yr archebion yn yr hydref fesul rhanbarth; (gweler Ffigur 7 trosodd), roedd busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru yn fwy tebygol o nodi niferoedd uwch o archebion ymlaen llaw ar gyfer misoedd cynnar yr hydref na'r rhanbarthau eraill yng Nghymru. Roedd busnesau yn Ne Orllewin Cymru yn lleiaf tebygol o weld cynnydd yn yr archebion a wnaed ymlaen llaw, gyda 20% yn unig o fusnesau yn nodi bod eu niferoedd yn uwch eleni. Nododd tua chwarter o'r busnesau ledled y rhanbarthau yng Nghymru bod eu harchebion wedi gostwng, ac eithrio De Ddwyrain Cymru (19%).

Ffigur 7



Yna, gofynnwyd i'r busnesau a nododd eu bod wedi derbyn nifer uwch o archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref, pam eu bod yn meddwl bod archebion ymlaen llaw wedi cynyddu ar gyfer tymor yr hydref eleni. Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn gweld p'un a fyddai busnesau yn priodoli'r cynnydd hwn mewn archebion i Gwpan Rygbi'r Byd yn ddigymell.

Fel y gwelir yn Nhabl 5 drosodd, roedd y busnesau a welodd gynnydd yn nifer yr archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref fwyaf tebygol o sôn am Gwpan Rygbi'r Byd (16%). Heb fod yn annisgwyl, mae'r gyfran hon yn cynyddu i 58% ar gyfer busnesau yn Ne Ddwyrain y wlad oherwydd y bydd y gemau yn cael eu cynnal yn y rhanbarth hwn.

Soniodd bron i un o bob chwech am eu hymdrechion eu hunain mewn perthynas â marchnata, cyhoeddusrwydd neu wefan newydd. Roedd busnesau hefyd yn credu eu bod yn elwa ar gymryd archebion dros y we ac wrth ddefnyddio safleoedd archebu dros y we, megis booking.com, Aribnb a Laterooms.com (9%). Roedd rhai busnesau hefyd yn priodoli eu niferoedd uwch o archebion ymlaen llaw i'r cynnydd mewn gweithgareddau neu ddigwyddiadau yn yr ardal neu i'w hymdrechion eu hunain i wella eu gwasanaethau neu gynnig cyfleusterau unigryw (7% yr un).

Mae tabl 5 isod yn rhestru'r rhesymau a roddwyd gan fusnesau yn ddigymell ynghylch pam roedd niferoedd yr archebion ymlaen llaw wedi cynnyddu.

Tabl 5

Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref eleni o gymharu â'r llynedd?	% y busnesau
Cwpan Rygbi'r Byd	16
Mwy o farchnata / cyhoeddusrwydd a/neu wefan newydd	15
Mwy o archebion dros y we / mwy yn defnyddio safleoedd archebu	9
Mwy o weithgareddau / digwyddiadau yn yr ardal	7
Cyfleusterau gwell / unigryw	7
Busnes wrth yr un bobl	6
Adolygiadau da (ar Trip Advisor)	6
Mwy o bobl yn aros yn y DU / mwy o dwristiaid	6
Tywydd gwell	4
Busnes yn fwy sefydlog	3
Cynydd yn nifer y priodasau	3
Arall	23
Ddim yn gwybod	15

Sail = Pob un a nododd eu bod wedi cael nifer uwch o archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref eleni o gymharu â Medi a Hydref y llynedd (113)

Noder: Gallai busnesau nodi mwy nag un rheswm, felly gallai'r canrannau fod yn uwch na 100%

Gofynnwyd hefyd i'r busnesau twristiaeth hynny a nododd nad oedd eu harchebion ar gyfer Medi a Hydref eleni yn cymharu'n ffafriol â'r llynedd, beth oedd y rheswm dros hynny, yn eu barn nhw.

Gwnaeth dau bumed o'r busnesau a wnaeth dderbyn llai o archebion ymlaen llaw eleni briodoli'r cwmp yn y niferoedd i'r tywydd gwael. Roedd hon yn broblem benodol i fusnesau carafanau yng Nghymru, am fod 55% ohonynt yn credu bod y tywydd gwael yn ystod yr haf wedi atal ymwelwyr rhag gwneud archeb ymlaen llaw ar gyfer misoedd yr hydref (o gymharu â 33% ar gyfer llety â gwasanaeth a 41% ar gyfer llety hunanddarpar).

Roedd mwy nag un busnes ym mhob wyth yn credu bod ymwelwyr yn fwy tebygol o archebu ar y funud olaf eleni o gymharu â'r llynedd. Awgrymodd rhai y gallai ymwelwyr fod yn gwneud hyn er mwyn cael cynigion arbennig rhatach. Roedd cyfrannau tebyg hefyd yn credu bod yr hinsawdd economaidd ac anfodlonrwydd ymwelwyr i wario arian hefyd yn cael effaith ar eu busnes (9%).

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhesymau digymell a gafwyd gan fusnesau am eu niferoedd is o archebion ymlaen llaw eleni.

Tabl 6

Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref eleni o gymharu â'r llynedd?	% y busnesau
Tywydd gwael eleni	39
Fel arfer yn cael archebion munud olaf	12
Hinsawdd economaidd / pobl ddim yn gwario cymaint o arian	9
Diffyg hysbysebu / yr ardal ddim yn cael ei hyrwyddo ddigon	6
Dirywiad mewn twristiaeth	4
Ddim yn cynnig archebu ar-lein / rhatach ar-lein	4
Llai o ymwelwyr ar ôl gwyliau'r ysgol	3
Arall	14
Ddim yn gwybod	20

Sail = Pob un a nododd eu bod wedi cael nifer is o archebion ymlaen llaw ar gyfer Medi a Hydref eleni o gymharu â Medi a Hydref y llynedd (98)

Noder: Gallai busnesau nodi mwy nag un rheswm, felly gallai'r canrannau fod yn uwch na 100%

Yna gofynnwyd i'r busnesau p'un a oeddent yn ymwybodol bod Cymru yn croesawu rhai o gemau Cwpan Rygbi'r Byd eleni. Dywedodd mwyafrif y busnesau eu bod nhw'n ymwybodol o hyn (81%).

Yna gofynnwyd i'r busnesau p'un a oeddent yn teimlo y byddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith ar eu busnesau. Roedd mwy na thri chwarter o'r busnesau yn teimlo na fyddai'n cael unrhyw effaith; roedd 17% yn teimlo y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar eu busnes, tra mai 4% yn unig a oedd yn teimlo y byddai'n cael effaith negyddol - i gael mwy o fanylion gweler Tabl 7.

Eto, heb fod yn annisgwyl, roedd busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru yn llawer mwy tebygol o nodi y byddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith gadarnhaol ar eu busnes (51%).

Tabl 7

% y busnesau	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Dim effaith
Pob busnes	17	4	78
Gogledd	5	3	88
Canolbarth	9	3	87
De Orllewin	11	4	85
De Ddwyrain	51	6	41

Sail = Pob busnes (406) Gogledd (134), Canolbarth (85), De Orllewin (108), De Ddwyrain (79)

Noder: Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys y busnesau hynny a ddywedodd 'ddim yn gwybod'

Ymhlith y busnesau hynny a nododd y byddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith **gadarnhaol** ar eu busnesau, roedd 41% ohonynt yn teimlo y byddai'n arwain at fwy o archebion.

Dywedodd chwarter pellach o'r ymatebwyr y byddai'n dod â mwy o bobl i'r ardal, ac o ganlyniad, gallai eu busnesau elwa'n ariannol. Roedd un busnes o bob wyth yn teimlo y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y wlad yn ei gyfanrwydd, oherwydd gallai Cwpan Rygbi'r Byd helpu i hyrwyddo a chreu mwy o ddiddordeb ymhlith ymwelwyr posibl - gweler Tabl 8.

Tabl 8

Pam ydych chi'n credu y bydd Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith gadarnhaol ar eich busnes? (heb gael cynnig awgrymiadau)	% y busnesau
Cynnydd yn yr archebion / mwy o fusnes	41
Bydd mwy o bobl yn dod i'r ardal / byddwn yn gwneud mwy o arian	26
Bydd yn gymorth i hyrwyddo Cymru / yn ennyn mwy o ddiddordeb	12
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o dramor	9
Cynnal digwyddiadau sy'n gysylltiedig â Chwpan y Byd	8
Bydd yn denu ymwelwyr newydd i Gymru	7
Arall	18
Ddim yn gwybod	1

Sail = pob busnes sy'n credu y bydd Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith gadarnhaol ar eu busnes (68)

Noder: Gallai busnesau nodi mwy nag un rheswm, felly gallai'r canrannau fod yn uwch na 100%

Ymhlith y busnesau a nododd eu bod yn credu y byddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith **negyddol** ar eu busnes (14 o fusnesau yn unig), dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod yn pryderu y byddai ymwelwyr yn llai tebygol o ymweld â'u hatyniad / ardal tra bod y gemau'n cael eu cynnal, oherwydd byddai'n well ganddynt wyllo'r gemau, naill ai gartref neu yn y dafarn (12 o fusnesau - noder sail fach iawn) - gweler Tabl 9 drosodd

Tabl 9

Pam eich bod yn credu y bydd Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith negyddol ar eich busnes? (heb gael cynnig awgrymiadau)	Nifer yr ymatebwyr
Ni fydd ymwelwyr yn ymweld tra bod y gemau yn cael eu cynnal / bydd yn well ganddynt wyllo'r gemau yn rhywle arall (e.e. gartref, yn y dafarn)	12
Arall	3

Sail = pob busnes sy'n meddwl y bydd Cwpan Rygbi'r Byd yn cael effaith negyddol ar eu busnes (14)

Noder bod y sail yn fach iawn

Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd mwy na thri chwarter o fusnesau twristiaeth Cymru yn teimlo na fyddai Cwpan Rygbi'r Byd yn cael **unrhyw effaith** ar eu busnes.

Roedd mwy na thri chwarter o'r busnesau hyn wedi nodi bod hyn yn ganlyniad i'w lleoliad a'r ffaith eu bod yn rhy bell i ffwrdd o'r gemau iddo gael unrhyw effaith (80% yng Ngogledd Cymru a 88% yng Nghanolbarth Cymru).

Cafwyd sylwadau eraill gan gyfrannau llai o lawer o ymatebwyr; nododd 10% na fyddai Cwpan Rygbi'r Byd yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl i'w harchebion oherwydd natur eu busnes a'r ffaith na fyddai ganddynt unrhyw gysylltiad o gwbl â digwyddiadau chwaraeon, tra dywedodd 9% na fyddai gan eu cwsmeriaid unrhyw ddiddordeb o gwbl yn y gemau felly na fyddai'n cael unrhyw effaith o gwbl ar eu busnes - i gael mwy o fanylion ynghylch y sylwadau a wnaed, gweler Tabl 10 isod.

Tabl 10

Pam eich bod yn credu na fydd Cwpan Rygbi'r Byd yn cael unrhyw effaith ar eich busnes?	% y busnesau
Rhy bell i ffwrdd o'r gemau / Caerdydd	78
Ni fydd yn effeithio ar y busnes / dim cysylltiad â digwyddiadau chwaraeon	10
Dim diddordeb yn y rhan hon o'r wlad / dim diddordeb gan y cwsmeriaid	9
Gwybod o brofiad / ni chafodd ddigwyddiadau tebyg (Cwpan Ryder) unrhyw effaith ar y busnes yn y gorffennol	2
Dim effaith ar hyn o bryd, efallai bydd cynydd yn yr harchebion yn agosach at yr amser	2
Arall	4
Ddim yn gwybod	2

Sail = pob busnes sy'n meddwl na fydd Cwpan Rygbi'r Byd yn cael unrhyw effaith ar eu busnes (317)

Noder: Gallai busnesau nodi mwy nag un rheswm, felly gallai'r canrannau fod yn uwch na 100%

3.3 Tarddiad yr Ymwelwyr

Gofynnwyd i'r busnesau hynny sydd wedi bodoli ers mwy na 12 mis p'un a oedd cyfran y gwesteion/ ymwelwyr sy'n dod i'w sefydliadau o wahanol wledydd a rhanbarthau byd eang wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf.

Nododd ychydig mwy na chwarter o'r busnesau gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r Almaen o gymharu â 2014, tra bod un chwarter arall wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr 'o wledydd tramor eraill'. Nododd un busnes ym mhob chwech gynnydd yn yr ymwelwyr o Awstralia a Seland Newydd, yr UDA a Chanada (17% ac 16% yn y drefn honno), tra bod cyfran ychydig yn llai wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o Ffrainc (14%). Dim ond 7% oedd wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o Iwerddon.

Yn Ne Ddwyrain Cymru, nododd 30% o'r busnesau gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o Awstralia a Seland Newydd a nododd 27% o'r busnesau yn y rhanbarth gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o America a Chanada. Roedd mwy o fusnesau yn yr ardal hon wedi sylwi ar gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r gwledydd hyn a allai fod yn gysylltiedig â Chwpan Rygbi'r Byd.


Fodd bynnag, nid oedd cyfran gymharol fawr o'r busnesau wedi cael ymwelwyr o'r gwledydd hyn - i gael mwy o fanylion gweler Ffigur 8 drosodd.

Ffigur 8

O'i gymharu ag Awst y llynedd, pa gyfran o'r ymwelwyr ddaeth o.....?

%

■ Mwy na'r llynedd ■ Yr un peth â'r llynedd ■ Llai na'r llynedd ■ Ddim yn gwybod ■ Amherthnasol



Sail: busnesau sydd wedi bod yn gweithredu am fwy na 12 mis (405)

ATODIAD

Holiadur yr Arolwg

Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru – CAM 2
HOLIADUR TERFYNOL (27 Awst 2015)

Bore da/ prynhawn da/ noswaith dda fy enw i yw ____ o Beaufort Research, Asiantaeth Ymchwil i'r Farchnad annibynnol yng Nghymru. Rwy'n ffonio ar ran Croeso Cymru sydd â diddordeb yn eich barn ar faterion sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru. Bydd yr arolwg ond yn cymryd ychydig o funudau a bydd popeth a ddywedwch yn aros yn gyfrinachol, gyda'r canlyniadau yn cael eu cyfuno gydag ymatebion busnesau eraill a'u hadrodd i Croeso Cymru.

Galla i wirio un peth, ai chi yw perchennog y busnes neu a oes gennych chi rôl rheoli yn y busnes?
OS NA, gofynnwch am gael siarad â rhywun sydd â rôl rheoli/ y perchennog.

S1 Alla i wirio - ydych chi'n siarad Cymraeg?
Ydw - yn rhugl → **S2**
Ydw - ond nid yn rhugl → **S2**
Nac ydw - nid yw'n siarad Cymraeg → **Q1**

S2 A fyddai'n well gennych chi gael y cwestiynau'n Saesneg neu'n Gymraeg?

Saesneg
Cymraeg

Cwestiynau craidd

Q1 A gafodd eich busnes ei sefydlu am fwy na 12 mis?

Do (**Ewch i Q2**)

Naddo (**Ewch i Q6**)

Q2 O gymharu â mis Awst y llynedd, faint o westeion/ymwelwyr sydd wedi bod gyda chi yn ystod mis Awst eleni?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

Mwy na'r llynedd → **Q3**
Yr un peth a'r llynedd → **Q5**
Llai na'r llynedd → **Q4**
Ddim yn gwybod → **Q5**

Q3 (OS MWY) Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr?
PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU
Tywydd gwell
Marchnata eu hunain
Busnes wrth yr un bobl
Gwelliant mewn twristiaeth
Argymhellion
Mwy o gapasiti
Digwyddiadau yn yr ardal
Ystafelloedd/cyfleusterau gwell
Mwy o ymwelwyr o dramor
Hysbysebion teledu Croeso Cymru
Arall (nodwch)

Ddim yn gwybod

Q4 (OS LLAI) Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael llai o westeion/ymwelwyr?
PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

Hinsawdd economaidd
Tywydd ddim cystal
Problemau na ellid eu rhagweld
Cystadleuaeth gref
Dirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal
Busnes yn tawelu
Llai o ymwelwyr o dramor
Heb hyrwyddo'r busnes
Arall (nodwch)
Ddim yn gwybod

Q5 O gymharu â mis Awst y llynedd, sut fydddech chi'n disgrifio'r trosiant ar gyfer mis Awst eleni?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

Yn uwch na'r llynedd
Yr un peth a'r llynedd
Yn is na'r llynedd
Ddim yn gwybod

CWPAN RYGBI'R BYD

C6 A fydddech yn dweud fod y nifer cyfunol o archebion ymlaen llaw yr ydych wedi eu derbyn ar gyfer misoedd Medi a Hydref eleni yn uwch, is neu yr un fath â'r archebion ymlaen llaw ym misoedd Medi ac Hydref y llynedd?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

Mwy na'r llynedd → **Q7a**
Yr un peth a'r llynedd → **Q7b**
Llai na'r llynedd → **Q8**

Ddim yn gwybod

OS CODIWYD 1 (MWY) YN Q6

Q7a Pam eich bod yn dweud hynny?
COFNODWCH AIR AM AIR

Ddim yn gwybod

OS CODIWYD 2 (LLAI) YN Q6

Q7b Pam eich bod yn dweud hynny?
COFNODWCH AIR AM AIR

Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH I BAWB

Q8 A oeddech yn gwybod y bydd Cymru yn cynnal rhai o'r gemau ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd eleni?

Oeddwn

Nac oeddwn

Ddim yn gwybod

Q9 A ydych yn meddwl y gwnaiff Cwpan Rygbi'r Byd gael effaith bositif neu negyddol ar eich busnes, neu gael ddim effaith o gwbl?

READ OUT – SINGLE CODE – INVERT SCALE BETWEEN RESPONDENTS

1. Effaith gadarnhaol iawn
2. Effaith ychydig yn gadarnhaol
3. Dim effaith
4. Effaith ychydig yn negyddol
5. Effaith negyddol iawn

Ddim yn gwybod

OS CODIWDYD 1 NEU 2 YN Q9 (CADARNHAOL)

Q10a Pam eich bod yn dweud hynny?

COFNODWCH AIR AM AIR

Ddim yn gwybod

OS CODIWDYD 3 YN Q9 (DIM EFFAITH)

Q10b Pam eich bod yn dweud hynny?

COFNODWCH AIR AM AIR

Ddim yn gwybod

OS CODIWDYD 4 NEU 5 YN Q9 (NEGyddOL)

Q10c Pam eich bod yn dweud hynny?

COFNODWCH AIR AM AIR

Ddim yn gwybod

TARDDIAD YR YMWELWYR

GOFYNNWCH I'R HOLL FUSNESAU SYDD WEDI BOD YN GWEITHREDU AM FWY NA 12 MIS

DARLLENWCH YN UCHEL - Gan edrych nawr ar ardal breswyl eich ymwelwyr.

Q11 Sut oedd cyfran eich ymwelwyr o **NODWCH O'R RHESTR** yr haf hwn yn 2015 yn cymharu â haf 2014?

READ OUT – SINGLE CODE – INVERT SCALE BETWEEN RESPONDENTS

Mwy na'r llynedd
Yr un peth a'r llynedd
Llai na'r llynedd

Ddim yn gwybod

RHESTR

Gweriniaeth Iwerddon
Ffrainc
Yr Almaen
UDA a Chanada
Awstralia a Seland Newydd
Unrhyw wledydd tramor eraill

Ddim yn berthnasol – ddim yn derbyn ymwelwyr o (Gymru, tu allan i Gymru o fewn y DU, Gweriniaeth Iwerddon, yr Almaen, UDA, Unrhyw wledydd tramor eraill)

Cwestiynau craidd

Q12 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich lleoliad orau?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

Glan y môr
Trefol
Mewndirol
Ddim yn gwybod

Q13 Pa mor hyderus ydych chi am dymor yr hydref?

DARLLENWCH YN UCHEL - TROWCH YR ATEBION O CHWITH RHWNG YMATEBWYR

Hyderus iawn
Eithaf hyderus
Ddim yn hyderus iawn
Ddim yn hyderus o gwbl
Ddim yn gwybod

Q14 I'n helpu gyda'r dadansoddiad, a alla i ofyn a yw'ch busnes wedi'i raddio neu ei achredu gan Croeso Cymru?

Ydy
Nac ydy

Ddim yn gwybod

DARLLENWCH YN UCHEL

Diolch am roi o'ch amser.

I gadarnhau, fy enw yw xxxxx, ac rwy'n ffonio o Beaufort Research a chynhaliwyd yr arolwg hwn yn unol â Chod Ymarfer y Gymdeithas Ymchwil Marchnata.

Os hoffech wirio ein cymwysterau gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil Marchnata am ddim ar 0500 39 69 99.

Diolch eto a hwyl fawr.